Cymraeg Efo'n Gilydd

Ffurflen Gais

Dylid cyflwyno'r ffurflen hon erbyn 15 Hydref 2012.
Gweler y canllawiau dros y dudalen

1. Enw Cymdeithas
2. Enw Cyswllt
3. Cyfeiriad
4. Ffôn
5. Côd Post
6. E-bost
7. Teitl y gweithgaredd
8. Dyddiad
9. Amser
10. Lleoliad
11. Rhowch ddisgrifiad byr o'r gweithgaredd gan egluro pa gyfle fydd i ddysgwyr sydd wedi bod yn dysgu ers dwy neu dair blynedd i sgwrsio â Chymru Cymraeg, e.e. dros baned / ar daith gerdded.
12. Rhowch amcangyfrif o gostau'r digwyddiad

Eitem	Cost (£)
Cyfanswm	

13. Rydym yn gwybod am __ (nifer) o ddysgwyr yn lleol, a byddwn yn eu gwahodd.

Meddyliwch am ddysgwyr lleol sydd wrthi'n dysgu ers dwy neu dair blynedd. Byddai gwybod am un neu ddau o ddysgwyr lleol yn wych, nid oes rhaid gwahodd dysgwyr o'r tu allan i'ch dalgylch er mwyn sicrhau rhagor o niferoedd – mae'n well cael nifer llai o ddysgwyr sy'n aelodau o'r gymuned. Os na wyddwch am unrhyw ddysgwyr lleol, bydd modd i ni helpu, a byddwn hefyd yn hyrwyddo eich digwyddiad yn y dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn lleol.

14. Llofnod
15. Dyddiad

Cymraeg Efo'n Gilydd

Yn aml bydd Cymry Cymraeg yn teimlo'n ansicr wrth siarad Cymraeg efo dysgwyr, gan droi i'r Saesneg, yn meddwl bod hyn yn gwneud y dysgwr i deimlo'n fwy cyffroddus.

O'r herwydd, mae dysgwyr yn aml yn teimlo nad ydyn nhw'n cael cyfle y tu allan i waliau'r ystafell ddosbarth i gynnal sgyrsiau real gyda siaradwyr Cymraeg cynhenid.

Dyma wrth gwrs yw bwriad y prosiect yma, sef rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg cynhenid a dysgwyr siarad efo'i gilydd.

Yn ogsytal â bod o gymorth i ddysgwyr ymdoddi yn rhan lawn o fywyd Cymraeg y gymuned, gobeithio y bydd y cynllun o fudd i'ch cymdeithas fel ffordd o annog aelodau newydd, brwd i ymuno â chi.

Bwriad y cynllun Cymraeg Efo'n Gilydd yw rhoi cymorth i'r rhai sydd wedi gwneud ymdrech i ddysgu Cymraeg i gael ymarfer a defnyddio eu Cymraeg.

Mae'r cynllun yn benodol ar gyfer dysgwyr sydd wedi bod wrthi'n dysgu ers o leiaf dwy neu dair blynedd, ac a fydd yn medru dilyn a chynnal sgwrs yn Gymraeg.

Rydym yn cynnig hyd at £100 i gymdeithasau Cymraeg eu hiaith, fel eich cymdeithas chi, i drefnu cyfleoedd i ddysgwyr lleol gael siarad Cymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol a chymdeithasol o fewn eu cymuned.

Gall pob cymdeithas gyflwyno un cais, ond gall eich cais fod ar gyfer un neu ragor o ddigwyddiadau.

Nid oes disgwyl i unrhyw gymdeithas newid nac addasu eu rhaglen er mwyn bod yn gymwys, yn hytrach, gallwch ddewis yr eitem fwyaf addas ar eich rhaglen gogyfer â gwahodd dysgwyr lleol atoch.

Rhaid i'r digwyddiad yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer fod yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i'ch cymdeithas hyrwyddo'r digwyddiad i ddysgwyr lleol yr ydych yn gwybod amdanynt sydd wedi bod yn dysgu ers dwy neu dair blynedd.

Byddwn ni yn hyrwyddo eich digwyddiad trwy gyfrwng dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn lleol.

Gellir talu, er enghraifft, am siaradwyr gwâdd, cost ymweld ag atyniad lleol, sleidiau, ffilm, cwis, gosod blodau, taith gerdded, arddangosfa ac yn y blaen.

Cofiwch mai nod y cynllun yw trochi dysgwyr yn yr iaith Gymraeg – dydyn ni ddim am i chi droi unryw ran o'r gweithgaredd i'r Saesneg!

Ar y llaw arall, efallai y byddai modd ystyried anghenion y dysgwyr a defnyddio iaith syml bob dydd yn ystod y digwyddiad, yn hytrach na iaith lenyddol neu ffurfiol er enghraifft.

Er enghraifft byddai'r enghreifftiau a nodir uchod yn fwy addas fel digwyddiad i'w ddewis na darlith dreiddgar.

Byddem yn ystyried ceisiadau yn fisol o fis Gorffennaf ymlaen. Y dyddiad olaf byddem yn derbyn ceisiadau yw Hydref 15fed 2012. Rhaid i'r digwyddiad fod cyn ddiwedd Mis Tachwedd 2012.

Ni ellir defnyddio'r arian ar gyfer costau rhedeg eich mudiad. Arian yw hwn yn hytrach i'ch digolledu chi am gostau cynnal y digwyddiad.

Yn dilyn y digwyddiad, bydd angen i chi hawlio'r costau'n ôl oddi wrthym trwy lenwi Ffurflen Hawlio, ynghyd â dychwelyd y Ffurflenni Buddiannwyr sydd i'w llenwi gan bob person sy'n mynychu.

Bydd angen i bob dysgwr sy'n mynychu lenwi ffurflen werthuso yn ogystal.

Yn dilyn y digwyddiad, gofynnwn i chi anfon adroddiad am y digwyddiad i'ch papur bro lleol.

Anfonwch y ffurflen gais at Rebecca Roberts, Menter Iaith Sir y Fflint, Corlan, Uned 3, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP neu at rebecca@menteriaithsiryfflint.co.uk erbyn 15 Hydref 2012. Fe gewch wybod os yw eich cais yn llwyddiannus o fewn 10 diwrnod gwaith.